
WNO Welsh National **Opera**

Mae'r Ddeuawd Flodau neu'r 'Flower Duet' yn dod o opera o'r enw ***Lakmé***, a chafodd ei chyfansoddi gan Léo Delibes a'i pherfformio am y tro cyntaf yn Ffrainc yn 1883. Mae'n ddeuawd hardd ac adnabyddus, sy'n cael ei defnyddio'n aml mewn ffilmiau a hysbysebion. Beth am wylio Pennod 11 o Chwarae Opera i weld a ydych yn ei hadnabod a defnyddio'r adnodd hwn i wneud nifer o flodau lliwgar eich hun!

# Blodau Papur



## Byddwch angen:

- **Argraffydd a phapur neu gerdyn argraffu**
- **Siswrn**
- **Cerdyn**
- **Glud**
- **Tâp gludiog**
- **Pinau ffelt, pensiliau neu greonau**
- **Llinyn, gwlân neu ruban**

**Argraffwch y ffeiliau ar gyfer y blodau. Os ydych eisiau gwneud y blodau mawr, bydd angen ichi argraffu dwy ffeil. Dim ond un ffeil sydd i'w hargraffu ar gyfer y blodyn bach.**

**Os ydych wedi argraffu'r petalau ar bapur, efallai y bydd angen ichi ludo'r darnau sydd wedi eu hargraffu ar gerdyn tenau i'w gwneud yn fwy cadarn. Efallai gallwch ddefnyddio pecyn grawnfwyd gwag?**

**Pan fydd y glud yn sych, torrwch o amgylch siapiau'r petalau yn ofalus - mae gan bob siâp hir ddau betal, un gyferbyn â'r llall, torrwch nhw mewn un darn hir. Gofynnwch i oedolyn eich helpu.**

**Mae croeso ichi ddefnyddio pensiliau a phinnau i ychwanegu mwy o liw i'ch blodau a'u gwneud yn unigryw.**

**Ar ôl torri eich petalau, plygwch ar hyd y llinellau i'w gwneud i edrych yn fwy fel petalau go iawn.**

**Gosodwch stribedi'r petalau un ar ben y llall. Dechreuwch drwy wneud croes, yna defnyddiwch ddau stribed arall i wneud asterisk neu siâp seren...**


**...fel hyn:** *


**Sicrhewch y petalau yn eu lle gyda glud neu dâp gludiog ddwy ochrog.**


**Yn olaf, torrwch y cylchoedd lliwgar allan a'u gosod i ganol eich blodyn, gan osod y cylch lleiaf ar ben y cylch mwyaf.**

**Rydych wedi gorffen! Gallwch ddefnyddio llinyn neu ruban i hongian eich blodau, neu gallwch hyd yn oed eu rhoi i'ch teulu a'ch ffrindiau fel anrhegion.**

**Blodyn mawr 1**










WNO

**Blodyn mawr 2**







WNO

# Blodyn bach

